Penrhyn-coch

Wedi deg mlynedd o wasanaeth gwerthfawr daeth tymor Mrs M.A. Morgan i ben fel cynorthwywraig yn y gegin. Dydd Mercher olaf y tymor diwethaf cyflwynwyd rhodd iddi ar ran y staff, y plant a chyfeillion gan y prifathro, Mr R.T.Evans. Bu Mrs Morgan yn hynod o deyrngar a ffyddlon ar hyd yr amser. Gwasanaethodd fel cogyddes yn Ysgol Ysbyty Ystwyth am flynyddoedd lawer cyn iddi symud i fyw i Benrhyn-coch. Dymunodd pob aelod o'r staff amser dedwydd iddi ar ei hymddeoliad a diolchwyd yn gynnes iawn iddi am ei llafur diflino. Mynegodd Mrs Morgan ei phleser o gael gwasanaethu yn yr ysgol a'i dymuniad meddai, fyddai cael aros am ddeng mlynedd arall ond nid oedd yr oedran yn caniatau hynny. Wrth ddym-uno'r gorau i Mrs Morgan croesawn Mrs James o Dal-y-bont sy'n cymryd ei lle yma gyda ni.

Aeth nifer o'r plant i wersyll Llangrannog ddechrau'r mis ac er fod y tywydd ychydig yn llaith treuliwyd amser arbennig o hapus yno yn nofio, merlota a heicio yn ogystal â dilyn y gwersi arferol.

Y mae Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch wedi cyflwyno pêl-droed i'r ysgol a dymunwn ddiolch o galon iddynt am eu caredigrwydd. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.